CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
CYFARFOD 7.30 p.m. 17 Mis Gorffennaf 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd Elsbeth Page (Cadeirydd), Cyng. Eifion Jones, Cyng.Elfed Davies, Cyng.Julian Evans, Cyng. Robin Bowen, Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Cai Phillips ar y ffôn.
Cynghorydd Sir: Bryan Davies
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones
Ymddiheuriadau: Cyng.Delme Phillips a'r Cyng. Wyn Evans

Croesawodd y Cyng. Elsbeth Page (Cadeirydd) Dafydd Llywelyn (Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys), PS Dylan Davies a PCSO Martin Dickenson i'r cyfarfod. Cawsant wahoddiad i fynychu cyfarfod yn dilyn pryderon a fynegwyd gan y Cyngor ynghylch diffyg presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu yn yr ardal wledig hon. Anerchodd Dafydd Llywelyn y cyfarfod a manteisiodd sawl Cynghorydd ar y cyfle i ofyn cwestiynau am bryderon a godwyd yn lleol. Sicrhawyd y Cyngor bod adnoddau yn yr ardal gan yr heddlu yng Nghastell Newydd Emlyn, Llandysul a Chaerfyrddin. Cynrychiolwyd y Tîm Plismona Bro gan SCCH Martin Dickenson a esboniodd ei rôl a'i weithgareddau yn yr ardal. Sicrhawyd y Cyngor wrth glywed bod Swyddog Cyswllt Ysgolion penodedig sydd â rôl benodol fel rhan o'r cwricwlwm i addysgu plant am gadw'n ddiogel. Mae hwn ar gael trwy gydol y blynyddoedd ysgol. Gan ei bod yn ardal wledig, codwyd pryderon ynghylch peryg i blant o amgylch peiriannau fferm. O dan Rheoliadau Atal Damweiniau i Blant mewn Amaethyddiaeth 1998 mae yn anghyfreithlon i blant o dan 13 mlwydd oed, naill ai yrru neu reidio ar unrhyw beiriannau amaethyddol, gan gynnwys tractorau, combines, telehandlers ac ATVs. Roedd y Cyngor yn awyddus bod plant a'u rhieni yn cael gwybod am beryglon peiriannau fferm yn yr ardal wledig hon. Y mater arall roedd yn peri pryder roedd adroddiadau bod rhai gyrwyr tractorau a rhai gyrwyr eraill wedi eu gweld yn defnyddio ffônau symudol tra'n gyrru ar y briffyrdd. Cytunodd y Comisiynydd fod angen tynnu sylw at y peryglon hyn ac y byddent yn rhan o'u hagenda yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd yr wythnos ganlynol. Roedd yna faterion priffyrdd yr oedd y Cyngor yn credu bod diffyg cydweithio rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cyngor Cymuned. Mae gwelliannau posib wedi'u nodi gan y Cyngor Cymuned a fyddai'n cyfrannu at wella diogelwch i ddefnyddwyr y ffyrdd o fewn y Plwyf, enwedig a'r ddwy gyffordd (ar yr A484 a'r C2043) a hefyd i rannau eraill o'r A484 a'r B4333. Adroddwyd am nifer o ddamweiniau bu bron iddynt ddigwydd ac hefyd am rai ddamweiniau ffyrdd a nodir hefyd. Mae'r materion hyn wedi cael eu nodi a'u hadrodd yn fanwl i'r Cyngor Sir yn gyson dros y blynyddoedd ond ni chymerwyd unrhyw gamau i wella'r sefyllfa. Gofynnodd y Comisiynydd a allai'r Clerc anfon rhestr o'r materion a grybwyllwyd ato er mwyn iddo godi'r mater mewn cyfarfod gyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Diolchodd y Cadeirydd i Dafydd Llwyelyn, PS Davies a SCCH Dickenson am eu hamser a hefyd am ateb y cwestiynau a gyflwynwyd iddynt. Cytunodd y Cyngor fod y cyfarfod wedi bod yn addysgiadol a defnyddiol iawn.

29	**Datgelu Buddianau Personol** - Dim
30	**Cadarnhau'r Cofnodion - 19.06.2023** Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19.06.2023 yn gofnod cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Amy Evans.

31	**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a.	.Cyfleusterau Cyhoeddus -Ynni EDF - Set o allweddi sbâr heb eu derbyn eto. Mae Bryan Davies (Cynghorydd Sir) wedi uwchgyfeirio'r mater ac mae cyfarfod safle i'w drefnu gyda Liam Cole (Cyngor Sir Gaerfyrddin) ac aelodau'r Cyngor o fewn y tair wythnos nesaf.
b.	Traffig drwy Cynwyl Elfed - Ymhellach i'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 31 Mai 2022- Mae mannau wedi eu mesur er mwyn adnabod lle gellir gosod y llinellau melyn dwbl o amgylch y ddau dro dall yn y pentref. Penderfynodd y Cyngor bod angen i nodi y rhif y terfyn cyflymder ar wyneb y ffordd ac hefyd bod angen gosod mesurau tawelu uchwanegol (twmpath atal cyflymder) i'w lleoli yn y pentref.
c.	Cyffordd Penrhiwcrynfryn a Chyffordd Esgair - Mae'r Clerc wedi gofyn am ymweliad safle gyda'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Mike Jacob a Pheiriannydd Diogelwch Ffyrdd - yn aros am ymateb.
d.	Hysbysfwrdd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed - digwyl iddo gyrraedd.
e.	Ger y Duad - Absenoldeb goleuadau stryd ar hyd yr A484 ger SA33 6TQ. Arwel Price (Peiriannydd Goleuadau) wedi ymweld a'r safle ar 26/7/22. Clerc yn aros am diweddariad oddi wrth Arwel Price ynglŷn â datblygiadau.Dywedodd Bryan Davies (Cyng.Sir) wrth y cyfarfod ei fod wedi cysylltu ag Arwel Price a bod materion mewn llaw.
32	**Gohebiaeth.** Mae copïau o'r e-byst perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr - nodwyd. Cwyn ynghylch traffig yn goryrru a sbwriel ar y ffyrdd yn Esgair a'r cyffiniau - wedi'i hanfon ymlaen at y Cynghorydd Sir: Bryan Davies, Gan Bwyll Heddlu Dyfed Powys, a Chyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd y Cyngorydd Sir, Bryan Davies wrth y cyfarfod fod y gŵyn yn cael y sylw priodol.
33	**Cynllunio** **PL/06209 -**Estyniad llawr cyntaf arfaethedig ar yr ochr a'r cefn gydag is-grofft yn y cefn gyda gorchudd to sedum a balconi dec - Ty Cwmgwili, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6AR. Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais.

34	**<u>Taliadau a Chyllid -</u>** **<u>Archwilio Cymru</u>** Mae Meurig Jones wedi hysbysu'r clerc y bydd yn cwblhau'r archwiliad mewnol o fewn yr wythnos nesaf. **Taliadau** a. M.E. Davies Cyflog 06/23 s'yn cynnwys codiad cyflog o £500 heb ei hawlio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Mai 2022 - £751.34 b. H.M.R.C. - am 1/4 (1) 05/07/23 £319.80 c. M.E. Davies wedi talu Sefydliad Prydeining y Galon - Pecyn Cychwyn AED x2 a Phecyn Paratoi AED x1 £38.99 d. P.W.L.B. DD i'w dynnu o'r Cyfrif Banc ar 19.07.23 £345.00 Penderfynodd y Cyngor wneud y taliadau uchod.
35 **a.** **b.** **c.** **d.** **e.** **f.** **g.**	**<u>Materion Priffyrdd</u>** *Clerc wedi gofyn i'r aelodau nodi union leoliad y broblem (megis Cyfeirnod Grid/Côd Post / tirnod adnabyddadwy megis eiddo / Rhif adnabod ffyrdd) wrth adrodd er mwyn helpu'r clerc i drosglwyddo'r wybodaeth gywir pan cysylltu â'r Adran Briffyrdd.* <u>Crynfryn</u> SA33 6ER - Twll yn y ffordd adroddwyd yn mis Mehefin heb ei atgyweirio. <u>Y tu allan i Swyddfa'r Post Cynwyl Elfed-SA33 6TL</u> Cerb wedi torri <u>C1313 yn SA33 6TT-SA33 6TH - Bryn Eryl</u> - Canghennau wedi gordyfu heb ei dorri'n ddigonol a bagiau sbwriel yn dechrau cynyddu eto ar y palmant. <u>C1316 -SA33 6UN</u> Mae'r ffordd mewn cyflwr difrifol o wael ac yn torri i fyny mewn mannau.Adroddwyd bod car wedi mynd yn sownd wrth ochr y ffordd a bu'n rhaid ei dynnu allan. <u>Torri Coed - cynlluniau i gau ffordd yr A484 am bedwar dydd Sul yn olynol yn ystod mis Awst</u> - Nid yw'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn a hyn ond penderfynodd y Cyngor ofyn i'r Clerc ysgrifennu at Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gofyn iddynt wneud hyn yn fwy effeithlon oherwydd yr effaith posib ar draffig gwyliau ar y penwythnosau <u>Archwilio Coed ar hyd yr A484-</u> Clerc i ysgrifennu at Cyngor Sir Gaerfyrddin i ofyn am archwiliad coed ar hyd yr A484 o Ty-Coch i Gwmdwyfran. <u>Problemau carthffosiaeth yn cael eu hadrodd mewn afonydd lleol:</u> Yn dilyn glaw trwm adroddwyd bod gorlif o garthffosiaeth wedi rhedeg i mewn i'r afon Gwili. Clerc i gysylltu â Dŵr Cymru.

36	**<u>Unrhyw Mater Arall</u>** **<u>Hyfforddiant</u>** : <u></u>Gynefino i Gynghorwyr Newydd - Un Llais Cymru £38 y pen- Cyng. Cai Phillips, Robin Bowen ac Amy Evans i fynychu yn Rhuthiol ar 27.7.23. Cyng.Bryan Davies i fynychu hyfforddiant Modiwl 4 Deall y Gyfraith (lle am ddim) ar 13/07/23. Clerc i gyfathrebu gyda Marc Gower i drefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth defnyddio diffibriliwr. **Cynhadledd Un Llais Cymru 5/7/23:**Mynychodd y Cynghorydd Cai Phillips a rhoddodd adroddiad i'r Cyngor. Amlygwyd y materion canlynol: **1.** Effaith Newid Hinsawdd. **2.** Pwysigrwydd cynnal asesiad risg pan fo rhywun yn gwneud gwaith ar ran y Cyngor a phwysigrwydd sicrhau bod yswiriant digonol yn ei le. **3.** Hyfforddiant - mae'n bwysig i aelodau gael mynediad i'r hyfforddiant gan Un Llais Cymru er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rheoliadau cyfredol. **4.** Pwysigrwydd i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned - un ffordd a awgrymwyd oedd Cylchlythyr a hefyd rhannu gwybodaeth trwy Wefan y Cyngor.
37	**<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>** ***Nos Lun 18 Medi 2023*** 19:30 o'r gloch. Daeth y cyfarfod i ben am 22:00 awr.

<u>Arwyddwyd</u>……..

<u>Dyddiad</u>……